***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 1077

# Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Gweithdrefn Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018

## RHAN 3

### Dyletswydd i fabwysiadu

**Rhyddhau bond methu â chyflawni pan fo'r ddyletswydd i fabwysiadu yn gymwys**

**7.**—(1) Ac eithrio pan fo paragraff (3) yn gymwys, rhaid i'r corff cymeradwyo ryddhau bond methu â chyflawni o fewn 4 wythnos gan ddechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl rhoi hysbysiad o dan baragraff 23(4)(b) neu (5) o Atodlen 3.

(2) Mae paragraff (3) yn gymwys os gwnaeth y corff cymeradwyo—

(a) dyroddi tystysgrif o dan baragraff 12(2) o Atodlen 3, a

(b) gwneud gwaith i sicrhau bod y system ddraenio wedi ei chwblhau yn y fath fodd fel ei bod yn debygol o gydymffurfio â'r safonau cenedlaethol o ran ei gweithredoedd.

(3) Rhaid i'r corff cymeradwyo, o fewn 4 wythnos gan ddechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl cwblhau'r gwaith—

(a) anfon cyfrif llawn at y datblygwr o unrhyw symiau a gafwyd o dan y bond sydd wedi eu defnyddio i ddiwallu cost gwneud y gwaith,

(b) talu unrhyw swm dros ben i'r datblygwr, ac

(c) rhyddhau'r bond methu â chyflawni.